

# **Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 04/09/17**

**PRESENNOL:** Cyngorwyr: Gwyn Morris Jones (cadeirydd), John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Austin Roberts, Arthur Williams, Ceri Leeder, Phyllis Purchase, Gwenan Roberts a Catherine Williams

## **YMDDIHEURIADAU:** DIM

Croesawyd Victoria Kelly, hwyusydd tai fforddiadwy i'r cyfarfod. Yn ei chyflwyniad i'r Cyngor esboniodd fod CBS Conwy wedi gofyn iddi gynnal arolwg yn y pentref i geisio darganfod beth oedd yr anghenion am dai fforddiadwy. Cytunodd y cyngorwyr i rannu taflenni yn gwahodd y trigolion i gwblhau holiadur. Bydd Ms Kelly yn dychwelyd i gyflwyno canlyniad yr arolwg i'r Cyngor pan fydd y cyfnod o ymgynghori wedi darfod.

Croesawyd Mr John Worsley i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i broblem y planhigyn ymledol jac y neidiwr. Mae'n broblem neilltuol ger pont yr ysgol ac i fyny'r afon am o leiaf 300m. Mae Mr Worsley ac eraill yn dymuno codi cymaint ac sydd bosib o'r planhigyn a difa'r blodau a'r codau cyn i'r hadau wasgaru. Roedd y cyngorwyr yn cefnogi'r bwriad ac yn cytuno i hysbysebu'r fenter ac i gysylltu gyda thirfeddianwyr/thirddalwyr i ofyn os oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig y tri aelod newydd i'w cyfarfod llawn cyntaf.

**DATGAN DIDDORDEB:** Cyngorydd Gwyn Morris Jones (eitem 12- Waen Fechan, Ffordd Gyffylog)

**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd diwethaf.

## **MATERION YN CODI:**

**1.Arwydd Canolfan Bwyd Cymru** - Nododd y Cyngorydd Austin Roberts ei fod wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru ond dim byd pellach.

**2.Arwyddion Y Diffibrilydd** - Hysbysodd y Cyngorydd Austin Roberts ei fod wedi trafod lleoliad yr arwyddion gyda Mr Paul Smith. Bydd angen caniatâd yr adran strydoedd er mwyn eu gosod ar bolion lamp. Trefnwyd cyfarfod gyda Mr Jackson o'r adran.

**3.Sŵn Cŵn yn Cyfarth-** Mae'r mater yn parhau i dderbyn sylw gan yr adran reoleiddio.

**4.Y Polyn Fflag** - Mae'r Cyngorydd Gwilym Williams wedi bod yn ymchwilio i'r sefyllfa a bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf.

**5.Noson Tân Gwyllt-** Dim by pellach i'w adrodd.

**6.Cyffordd Ffordd Eglwys Bach a Heol Martin** - Darllenwyd neges e-bost gan y Cyngor Sir yn dweud eu bod wedi derbyn argymhelliad y Cyngor Cymuned.

**7.Mieri ar wal y Fynwent-** Hysbyswyd y cyfarfod fod Mr W D Williams wedi torri'r drain a'u llosgi. Mae'r Cyngorydd Austin Roberts yn mynd i roi halen ar y bonion.

**8. Clawdd y fynwent-** gofynwyd i'r cleric dros dro i anfon llythyr at drigolion Cilgerran yn gofyn iddynt drefnu bod y clawdd yn cael ei dorri.

**9. Symud torriadau glaswellt:** Deallwyd fod Mr Emrys Davies yn mynd i symud y torriadau glaswellt o'r fynwent.

**10. Pont Ffordd Bryn Hir-** Mae'r gwaith wedi dechrau o amgylch y bont. Bydd y llwybr ar gau dros cyfnod y gwaith. Nododd y Cynghorydd Austin Roberts bod peth pryder os bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn yr amser penodedig. Mae swyddogion y Cyngor Sir yn ystyried ceisio am estyniad.

**11. Polisi Claddedigaethau:** Tafodwyd y polisi yn dilyn y cais a gafwyd ym mis Awst.

***Penderfynwyd: Bod y cyngor yn barod i ganiatáu i basio 2 neu 3 bedd yn yr un rhes:***

- ***Os oes cais gan deulu'r ymadawedig***
- ***Bod yna reswm digonol***
- ***Ei bod hi'n ymarferol ar ran y torrwr beddau***
- ***Bod cysylltiad lleol gan yr ymadawedig***
- ***Codir ffi o £150 yn ychwanegol am hyn***

## **12. Ceisiadau Cynllunio -**

0/44291 Waen Fechan Ffordd Gyffyllog - Codi adeilad amaethyddol

Gadawodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ac aeth y Cynghorydd John Emlyn Jones i'r gadair.

***Penderfynwyd: Does gan y Cyngor ddim sylw i'w wneud am y cais.***

## **13. Adroddiad ariannol**

Cyfri Cyfredol £6,901

Cyfri Angladdau £2,722

Cyfri Cadw: £2,069

## **14. Taliadau -**

Sue Hayward (glanhau toiledau Gorffennaf ac Awst) £220.50

W D Williams (torri glaswellt a'r mieri) £400

Neuadd Aberconwy (hurio ystafell) £44

Dymunai'r cynghorwyr wybod beth yw amseroedd agor a chau'r toiledau erbyn y cyfarfod nesaf.

## **15. Cinio Nadolig -** Gadael tan y cyfarfod nesaf

**16. Hysbysfwrdd.** Adroddodd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi cael ar ddeall nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned. Roedd y cynghorwyr yn ffafrio lliw glas neu goch i'r hysbysfwrdd.

## **17. Gohebiaeth -**

Derbyniwyd llythyr gan y cyn gynghorydd Gwyn Williams yn diolch i'r aelodau am y rhodd o benillion iddo wedi eu hysgrifennu gan y Cynghorydd Austin Roberts a'u hysgrifennu mewn llawysgrifen gain gan Mrs Betty Blythe.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Heol Carrog yn nodi fod y tyfiant ar hyd rhan o lwybr Bryn Hir wedi gor dyfu. Cafwyd ar ddeall fod y gwaith o dorri'r tyfiant ar amserlen y Cyngor Sir ym Mis Medi.

## **18 UFA**

**Polyn giat ger y neuadd:** Hysbysodd y Cynghorydd John Lloyd Williams fod un o bolion y giat tu cefn i'r neuadd wedi pydru.

***Penderfynwyd: Gofyn i Mr W D Williams i osod un newydd.***

Terfynwyd y cyfarfod am 9:25

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - Hydref 2<sup>ail</sup> am 7:30